BETH OEDD MENYWOD YNG NGHYMRU YN EI WNEUD YN YSTOD Y RHYFEL BYD CYNTAF?

NYRSIO

Carreg goffa i **Ella Richards,** VAD, Capel Soar, Llanbedr Pont Steffan. Bu'n gwasanaethu yn Ffrainc a Salonica a bu farw o niwmonia. Roedd hi'n 31 oed.

Gertrude Madley *(ganwyd 1892),* a fu'n gweithio yn y gwaith tun yn Llanelli. Hyfforddodd yn nyrs ac ymunodd â'r QAIMNS yn 1916. Bu'n gwasanaethu ym Malta a Ffrainc, ac yno cafodd y llun hwn ei dynnu yn 1919.

Mintai Croes Goch Glyn Ebwy, Tachwedd 1914.

Cafodd gwasanaeth nyrsio'r fyddin, y *Queen Alexandra's Imperial Military Nursing Service* (QAIMNS), ei ffurfio yn **1902.** Roedd yr holl aelodau yn nyrsys wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso. Roedd nyrsys gwirfoddol hefyd o'r enw VADS. Cawson nhw eu hyfforddi gan y Groes Goch. Ymunodd miloedd o fenywod â'r VADS yn ystod y Rhyfel. Gweithiodd llawer yn agos i gartref, ond aeth eraill dramor, i Ffrainc yn bennaf, ond hefyd i'r Aifft, Salonica a hyd yn oed India.

GERTRUDE ROSEWARNE
(ganwyd 1893), bu'n gwasanaethu fel VAD o Hydref 1914 tan Awst 1918 yn y Fenni a Glyn Ebwy.

womenandwar.wales
menywodarhyfel.cymru

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE WALES

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

CHARITY NUMBER/RHIF ELUSEN 1158204